# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau

Dyddiad: 28 Awst 2020

Rhif Union: 01824 712589

e-bost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 4 MEDI 2020** am **10.00 am.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar y 06 Mawrth 2020 (copi ynghlwm).

**5 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 13 - 20)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) yn hysbysu'r aelodau am gyhoeddiad diweddaraf Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

## 6 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd y Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a Chynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

## 7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

(Tudalennau 21 - 22)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (copi ynghlwm).

## 8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau am 10.00 a.m. ar y 4 Rhagfyr 2020

## RHAN 2: EITEM CYFRINACHOL

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y mater canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf), ei datgelu.

## 9 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

(Tudalennau 23 - 28)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) sy'n rhoi trosolwg o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## AEOLODAETH

Aelodau Annibynnol:
Ian Trigger (Cadeirydd), Julia Hughes (Is-Gadeirydd), Anne Mellor a/ac Peter Lamb

Aelod Cyngor Tref / Cymuned
Gordon Hughes

Cynghorwyr Sir
Y Cynghorydd Paul Penlington
Y Cynghorydd Andrew Thomas

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
*(*dileuer un)*

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

*(Gweler y nodyn isod)**

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR SAFONAU**

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3DP ddydd Gwener, 6 Mawrth 2020 am 10.00am.

**YN BRESENNOL**

Ian Trigger (Cadeirydd), Julia Hughes, Anne Mellor a Peter Lamb.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Lisa Jones, Dirprwy Swyddog Monitro a Karen A Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gary Williams, Swyddog Monitro, Cynghorwyr Sir Paul Penlington ac Andrew Thomas a Chynghorydd Tref Gordon Hughes.

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Nid oedd unrhyw fater brys.
.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cywirdeb:

Tudalen 6, eitem 5 Llyfr Achosion Cod Ymddygiad - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Cael gwared ar y gair ‘nid’ o’r frawddeg olaf i gywiro sail resymegol am ddiffyg manylion.

Materion yn codi:

Tudalen 6, eitem 5 – Gwrandawiad Safonau Arbennig a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2019. Oherwydd materion galluedd nid oedd wedi bod yn bosib cynhyrchu adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd o'r gwrandawiad. Awgrymwyd i gynnwys yr adroddiad i'r cynllun gwaith i'r dyfodol ar gyfer y cyfarfod nesaf o’r Pwyllgor Safonau ar 5 Mehefin 2020.

Tudalen 7, eitem 6 – adroddiad 2019 gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Gofynnodd y Pwyllgor os oedd modd ychwanegu adroddiad i gynnwys y canlynol i'r rhaglen gwaith i'r dyfodol:

- enghreifftiau o arferion da yn rhywle arall

- adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau (nodyn atgoffa o delerau presennol i'w hanfon dros e-bost i aelodau) a
- cynhwysedd llwyth gwaith i gefnogi'r Pwyllgor Safonau

Hefyd cytunwyd ar adborth gan Aelodau Annibynnol, Julia Hughes ac Ann Mellor, o'u profiad â Phwyllgorau Safonau Cyngor Sir Y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Tudalen 7, eitem 6 – Bodloni dewis iaith. Gofynnodd i'r Pwyllgor y byddai modd gwneud cais am yr iaith â ffefrir yng nghyfarfodydd Cyngor Tref, Cyngor neu Gymuned wrth ddosbarthu cyngor ar drwyddedau, i gynorthwyo wrth adolygu amserlen o ymweliadau.

Nodwyd bod rhai ceisiadau goddefeb yn dod i law Pwyllgor Safonau Sir Ddinbych – roedd Sir Y Fflint yn cael llawer mwy. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd angen o ran hyfforddiant ac awgrymwyd y bydd e-bost dilynol yn cael ei anfon i Glercod Tref, yn rhoi enghreifftiau o fathau o weithgareddau y byddai angen ei ollwng.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod:*

- *adroddiad ar y Gwersi a Ddysgwyd o'r Gwrandawiad Safonau Arbennig i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau;*
- *adolygiad o Gymhwysedd y Pwyllgor Safonau a Chylch Gorchwyl i'w hychwanegu i'r cynllun gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Safonau a*
- *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2019 fel cofnod cywir.*

## 5 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad ar y Llyfr Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor mai bwriad y Llyfr Achosion oedd i gynorthwyo Aelodau ac eraill i ystyried a yw'r amgylchiadau y maent yn eu hwynebu yn arwain at dorri'r Cod. Hefyd roedd yn darparu gwybodaeth am y ffordd yr oedd yr Ombwdsman a phwyllgorau safonau eraill yng Nghymru yn delio ag achosion o ran gweithredu sancsiynau.

Rhifau achos y crynodebau a amlygwyd yn Sir Ddinbych;

- 201803272 & 201900045 – Hyrwyddo Cydraddoldeb a Pharch – Dim torri cod ymddygiad a
- 201700947 – Hyrwyddo Cydraddoldeb a Pharch – Roedd y Pwyllgor Safonau wedi gweld bod ymddygiad yn gallu dod â'r Cyngor i anfri ac wedi gwahardd Aelod o'i swydd am 4 mis.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn anodd llunio cynsail o hanesion bach. Gan gydnabod bod yr ymchwiliadau gan yr Ombwdsman yn eithaf trwm ar lafur/adnoddau, roedd perygl y byddai methu gweithredu yn arwain at leihau cyflwyniadau cwynion a dirywiad dilynol mewn democratiaeth lleol.

Nododd y Pwyllgor bod patrwm cyffredin o dorri amodau mewn categorïau Cydraddoldeb a Pharch, a Datgelu Gwybodaeth. Awgrymwyd y byddai Cynghorau Sir, Tref, Dinas a Chymuned yn manteisio o Sioeau Teithiol Cod Ymddygiad. Hefyd cytunwyd y dylid dosbarthu manylion datrys achos i Glercod cynghorau Tref, Dinas a Chymuned.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r wybodaeth sydd yn Llyfr Achos y Cod Ymddygiad.*

## 6 MOESGARWCH MEWN BYWYD CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i hysbysu aelodau'r Pwyllgor o ganllaw Cynghorwyr ar Ymgyrch Gwarineb mewn Bywyd Cyhoeddus ac i geisio safbwyntiau'r Pwyllgor ar y rhaglen ddrafft o weithgareddau sydd wedi eu hatodi yn Atodiad 3 – yn arbennig y canllaw ar ddelio â bygythion a chadw eich hun yn ddiogel.

Roedd gan yr ymgyrch dair prif thema a fyddai'n gweithredu fel sylfeini i gamau gweithredu yn y dyfodol:

1. Atal – cefnogaeth a chanllaw i awdurdodau.
2. Cymorth ac Ymyrraeth – datblygu cynigion polisi a deddfwriaeth sydd yn mynd i'r afael â bygythiadau a safonau trafodaethau cyhoeddus a
3. Her – ymrwymiad y DU i alw a herio digwyddiadau o fygythiadau a chamdriniaeth i wleidyddion.

Gan ymateb i ymholiadau'r Pwyllgor, bu i'r Dirprwy Swyddog Monitro:

- egluro bod y Canllaw i gynghorwyr ar Ddelio â Bygythiadau wedi'i gyhoeddi eisoes. Roedd yr ymgyrch hyrwyddol ar fin cael ei lansio;
- gynghori nad oedd aelodau etholedig yn cael eu cynnwys yn y Polisi Aflonyddwch a Gwrthfwlio gweithwyr;
- gadarnhau bod aflonyddwch yn fwy tebygol o gael ei wneud drwy gyfryngau cymdeithasol nag wyneb yn wyneb y dyddiau hyn;
- ddweud bod sefydliad di-elw, Fix The Glitch, yn cael ei ymgysylltu gan yr CLlL i helpu i ddatblygu adnoddau i gynghorwyr a chynghorau i fynd i'r afael â bygythiadau ar-lein;
- sicrhau'r Pwyllgor bod cronfa ddata ar unigolion treisgar/ cŵn peryglus ar gael i edrych arno cyn ymweliadau cartref (Y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol sy'n gofalu am y gofrestr);
- gadarnhau y byddai'r Swyddog Monitro yn gweithredu fel 'bwrdd seinio' ar gyfer unrhyw gynghorydd sydd eisiau cysylltu a
- Cynrychiolodd yr Arweinydd a'r Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yr Awdurdod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a rhoi'r sylwadau canlynol:

- Mae’n ymddangos bod cynnydd mewn ymddygiad ymrannol/ gwael - yn arbennig ar Gyfryngau Cymdeithasol;
- Roedd parch i swyddogion cyhoeddus yn diflannu;
- Dylid annog cofnodi pob digwyddiad o fygythiadau.
- Dylid dosbarthu’r canllaw i Gynghorwyr ar ddelio â bygythiad gael ei gylchredeg i bob cynghorydd Sir, Dinas, Cymuned a Thref.
- Bod canllaw i Gynghorwyr i ddelio a bygythiadau yn adnodd gwerthfawr:
    - a ddylai fod ar gael fel copi caled yn ogystal ag electronig a
    - byddai’n manteisio cael taflen Crynodeb ar gyfer cludadwyedd h.y. cerdyn Cadwch yn Ddiogel ar gyfer gwahanol senarios.
- Yn groes i’r cyngor a roddwyd ar dudalen 56, roedd rhai deddfau yn dod dan gyfraith sifil a ddim angen profi y tu hwnt i bob amheuaeth resymol.
- Gofynnodd y Pwyllgor i gael gweld yr adroddiad eto i roi rhywbeth ar ddeall wrth ddrafftio polisi i aelodau etholedig.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod i gytuno ar y cynllun gweithredu drafft*

## 7 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Roedd Aelodau Annibynnol Anne Mellor a Peter Lamb wedi mynychu cyfarfod o Gyngor Tref Dinbych ar 27 Ionawr 2020. Adroddwyd:

- Roedd anhawster o lywio gwefan Cyngor Tref Dinbych i ddod o hyd i amseroedd dechrau cyfarfodydd a’r agenda.
- Dechreuodd y cyfarfod yn brydlon. Roedd Cadeirydd, Is-gadeirydd a 9 aelod yn bresennol. Yn ogystal roedd cyfieithydd yn bresennol.
- Cawsant groeso cynnes a chlustffonau cyfieithu.
- Er bod dau wedi datgan cysylltiad ar gyfer eitem 19, ni wnaethpwyd yn amlwg os mai datganiad personol neu ddatganiad a oedd yn rhagfarnu oeddynt.
- Symudwyd ymlaen i’r eitem ar Gadw Llyfrau Electronig, er bu i ddau Gynghorydd gwestiynu’r arfer safonol. Bu i’r Cadeirydd wrthod eu gwrthwynebiadau a doedd dim llawer o ddeialog rhyngddynt.
- Bu i weddill yr agenda fynd rhagddo’n effeithlon.
- Gofynnwyd iddynt adael ar gyfer yr eitem olaf (eitem 19) ar Neuadd Tref Ddinbych, a oedd yn eitem gyfrinachol Rhan 2.

Yn gyffredinol roedd y cyfarfod yn ffurfiol, cwrtais a chafodd ei reoli'n dda. Roedd y Cadeirydd yn briodol (yn gyflym) a roedd gan y Clerc llawer o wybodaeth am yr eitemau ar yr agenda.

Roedd yr aelodau annibynnol yn teimlo yr oedd yn fanteisiol cael dau aelod o’r Pwyllgor Safonau yn bresennol gan i’r ddau weld agweddau gwahanol o gyfranogiad yn y cyfarfod.

Roedd aelodau annibynnol Julia Hughes ac Anne Mellor wedi mynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned Cefn Meiriadog ar 25 Chwefror 2020 am 7:00pm. Nodwyd:

- Roedd yn anodd llywio drwy'r wefan i ddod o hyd i amseroedd cyfarfodydd ayyb, ond roedd y Clerc wedi cynorthwyo'n dda iawn i ddarparu'r wybodaeth. Roeddynt yn cael gwefan newydd ar hyn o bryd.
- Nid oedd yn amlwg pwy oedd y Cadeirydd i ddechrau gan fod y Clerc yn cyflwyno nifer o eitemau.
- Roedd 6 aelod a'r Clerc yn bresennol. Bu i ddau aelod gyrraedd yn hwyr a roedd dau ymddiheuriad wedi dod i law.
- Darllenwyd y datganiad datgan cysylltiad yn uchel ar ddechrau'r cyfarfod. Ni ofynnwyd i'r ddau aelod a gyrhaeddodd yn hwyr, ond mi wnaeth un ddatgan er hynny. Dywedodd yr aelod beth oedd eu cysylltiad, ond ni wnaeth gadarnhau os oedd yn gysylltiad personol neu cysylltiad a oedd yn rhagfarnu Arhosodd yr aelod yn yr ystafell yn ystod trafodaeth o'r eitem gyda chysylltiad – Cais am Gyllid gan yr Urdd
- Weithiau roedd trafodaethau yn dod i ben heb gytuno ar gamau gweithredu clir na phleidlais pan roedd angen. Er bu i fwyafrif o'r cynghorwyr gymryd rhan gweithredol.
- Gofynnodd y Clerc am ei gyflog a threuliau, ond ni ofynnwyd iddo adael yr ystafell tra'r oedd yr hyn yn cael ei drafod.
- Rhoddodd y Clerc gyngor cyfreithiol da gyda dogfennaeth gefnogol i'r pwyllgor ynghylch ceisiadau gan unigolion am gyllid.
- Trafodwyd y cais cynllunio Sipsiwn a Theithwyr. Eglurodd y Cynghorydd Sir y broses gynllunio a dywedodd y gallai aelodau'r cyhoedd fynychu'r Pwyllgor Cynllunio.
- Nid oedd y Cynghorydd Sir yn gallu mynychu'r cyfarfod safle Sipsiwn a Theithwyr, fodd bynnag roedd aelod o'r Cyngor Cymuned yn gallu bod yn bresennol. Nid oedd yn eglur ar ddiwedd y drafodaeth os byddai'r Cadeirydd yn mynychu'r cyfarfod safle.
- Roedd y Clerc yn cefnogi'r Cadeirydd a'r Cynghorwyr drwy'r cyfarfod.

Yn dilyn yr adroddiadau adborth, awgrymodd y Pwyllgor y gallai templed safonol/ rhestr wirio o bwyntiau i'w nodi mewn cyfarfodydd, mewn perthynas â'r cod ymddygiad a gofynion hyfforddiant, fod yn arf defnyddiol.

Nodwyd y byddai Swyddog Monitro/ Swyddfa Partneriaeth Cyngor Sir Y Fflint yn ysgrifennu at bob Cyngor Tref a Chymuned yn amlygu'r cyngor generig ac adborth mewn cyfarfodydd dan sylw. Cytunodd y Dirprwy Swyddog Monitro i gysylltu â Chyngor Sir y Fflint i gael eu templed llythyr rhoi adborth.

***PENDERFYNWYD -*** *nodi'r pwyntiau y soniwyd amdanynt uchod.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn ceisio adolygiad aelodau o'r rhaglen waith y Pwyllgor.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol –

1) Cylch gorchwyl a cymhwysedd llwyth gwaith cymorth gan swyddog y Pwyllgor Safonau
2) Pwyllgorau Safonau ar y Cyd.
3) Fforymau Safonau ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru.
4) Templed/ffurflen safonol ar gyfer cyfarfodydd Cyngor Cymuned, Dinas a Thref.
5) Ychwanegiad o'r pynciau canlynol fel eitemau sefydlog ar gyfer rhaglenni gwaith yn y dyfodol:
    a. Materion Swyddog Monitro.
    b. Goddefebau a
6) Diweddariad Gwarineb mewn Bywyd Cyhoeddus.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y mae yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

**9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Mae cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Safonau wedi'u trefnu i'w cynnal yn ystafell gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun ar:

- 5 Mehefin 2020
- 4 Medi 2020 a
- 4 Rhagfyr 2020

**10 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro'r adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i roi trosolwg o gwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Soniodd y Dirprwy Swyddog Monitro am gwynion a gyflwynwyd a oedd yn cynnwys cynghorau yn Sir Ddinbych.
Gan amlinellu manylion o natur y cwynion a wnaethpwyd, a'r camau gweithredu a gymerwyd gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cytunwyd i leihau'r wybodaeth a ddarparwyd yn y taflenni Materion a Gwblhawyd i'r rheiny a gwblhawyd o fewn y 12 mis diwethaf.

Cafodd y Pwyllgor wybod nad oedd eu cyngor i'r Cynghorydd Tref, i fanteisio ar y cyfle i gyflawni hyfforddiant cod ymddygiad gyda'r Swyddog Monitro wedi digwydd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **04 Medi 2020** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl** | **Llyfr Achosion Cod Ymddygiad - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am argraffiad diweddaraf Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod aelodau'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth sydd yn Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Ers 2013 mae'r Ombwdsmon wedi llunio Llyfr Achosion Cod Ymddygiad (y Llyfr Achosion). Am beth amser cyn hynny bu'r Ombwdsmon yn cynhyrchu llyfr achosion oedd yn ymwneud â'r cwynion y bu'n ymchwilio iddynt o safbwynt camweinyddu honedig gan gyrff cyhoeddus. Yn dilyn galwadau i ddefnyddio dull tebyg o safbwynt cwynion cod ymddygiad, dechreuodd yr Ombwdsmon gyhoeddi'r Llyfr Achosion yn 2013.

4.2. Yn wreiddiol, roedd y Llyfr Achosion yn cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn, fodd bynnag mae’r Ombwdsmon wedi penderfynu cynhyrchu’r llyfr achosion yn chwarterol o fis Ebrill 2015. Mae’r Llyfr Achosion yn cynnwys crynodeb o bob achos y mae’r Ombwdsmon wedi cwblhau ymchwiliad iddynt yn ystod y cyfnod perthnasol.

4.3. Cynhyrchwyd y Llyfr Achosion i gynorthwyo Aelodau ac eraill i ystyried a yw’r amgylchiadau y maent yn eu hwynebu yn arwain at dorri’r Cod. Roedd hyn yn ychwanegiad i gyhoeddi esiamplau gwirioneddol yng Nghanllaw Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn â’r Cod.

4.4. Mae’r Llyfr Achosion hefyd yn cynorthwyo Pwyllgorau Safonau awdurdodau lleol trwy roi mynediad iddynt at wybodaeth am y ffordd mae Pwyllgorau Safonau eraill yng Nghymru yn gosod cosbau a chael gwared ar achosion ac yn helpu i esbonio pam, mewn rhai achosion, y gall yr Ombwdsmon wrthod ymchwilio achosion honedig o dorri rheolau ar y sail nad yw honiadau blaenorol tebyg wedi arwain at gosb.

4.5. Mae Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn cynnwys 23ain Argraffiad y Llyfr Achosion a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, yn trafod y cyfnod o fis Hydref 2019 tan fis Rhagfyr 2019. Bydd Aelodau'n nodi bod dau grynodeb achos yn yr argraffiad hwn o'r llyfr achosion, gyda’r ddau ohonynt yn dod i’r casgliad nad oedd angen gweithredu. Mae’r ddau achos yma yn ymwneud â Chynghorwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

4.6. Roedd y cyntaf o’r achosion hyn yn ymwneud â sefyllfa lle nad oedd Cynghorydd oedd â dyled Treth y Cyngor ar gyn eiddo wedi datgan y cysylltiad priodol ac wedi mynd ati i bleidleisio ar osod cyfradd Treth y Cyngor. Canfu’r Ombwdsman y dylai’r Aelod, fel sy’n ofynnol dan a106 Deddf Llywodraeth Leol 1992, fod wedi datgelu fod yr adran yn berthnasol iddo ac ni ddylai fod wedi cymryd rhan yn y bleidlais. Canfu’r Ombwdsman fod yr Aelod wedi derbyn y dylai fod wedi datgan y buddiant priodol ac na ddylai fod wedi pleidleisio. Nid oedd yr Ombwdsman yn ystyried ei bod er budd y cyhoedd i gymryd unrhyw gamau pellach gan ystyried amgylchiadau personol yr Aelod ar yr adeg yr oedd y dyledion wedi cronni, ei ddiffyg profiad cymharol, y ffaith ei fod wedi talu’r ddyled ac wedi ymddiheuro.

4.7. Roedd yr ail achos yn ymwneud â gwrthdaro buddiannau posibl rhwng cyflogaeth aelod a’r ffaith ei fod wedi derbyn swydd ar y cabinet. Roedd yr Aelod dan sylw wedi derbyn swydd ar y cabinet er gwaetha'r ffaith fod y Swyddog Monitro wedi cynghori fod gwrthdaro buddiannau. Derbyniodd yr Ombwdsman fod yr Aelod wedi ystyried cyngor y Swyddog Monitro ond yn deall pam y byddai elfennau o’r mater wedi arwain at i eraill gwestiynu’r penodiad. Canfu’r Ombwdsman nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach er budd y cyhoedd gan fod yr Aelod wedi ymddiswyddo o’i swydd. Atgoffwyd yr Aelod o’r angen i geisio cyngor y Swyddog Monitro yn y dyfodol o ystyried y posibilrwydd y gallai gwrthdaro buddiannau godi.

4.8. Nid oedd unrhyw achosion lle na ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth o dorri rheolau, ac nid oedd unrhyw achosion a gyfeiriwyd naill ai at Bwyllgor Safonau nac at Banel Dyfarnu Cymru yn ystod y cyfnod sy’n cael ei drafod yn yr argraffiad hwn o’r Llyfr Achosion.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw'r adroddiad yn cael effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o'r effaith ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu adroddiad nac ymgynghoriad ar y mater hwn yn unman arall.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Nid oes angen penderfyniad.

Coflyfr
Y Cod Ymddygiad

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Rhifyn 23 Ionawr 2020

# Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

d) (ch) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hwn yn adrodd ar y cyfnod Hydref i Ragfyr 2019.

# Cynnwys

Dim tystiolaeth o dorri'r cod....3
Nid oes angen gweithredu....3
Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau....4
Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru....4

# Crynodebau Achosion

## Dim tystiolaeth o dorri'r Cod

Ni does crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn.

## Nid oes angen gweithredu

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Dyletswydd i gynnal y gyfraith
Rhif Achos: 201805269 – Adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn fod aelod ("yr Aelod") o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy bleidleisio ar bennu cyfradd y dreth gyngor mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor ym mis Mawrth 2018 pan oedd ganddo ôl-ddyledion treth gyngor ar ei gyn gartref. Mae'n drosedd o dan a106 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i aelod bleidleisio ar bennu cyfradd y dreth gyngor pan fydd ganddynt ôl-ddyledion eu hunain.

Rhannau perthnasol o'r Cod yn yr achos hwn yw paragraffau 6(1)(a) sy'n ymwneud â dwyn anfri ar yr awdurdod a pharagraffau 10(1), 11(1) a 14(1)(a), (b) a (c) am y camau y dylai aelod eu cymryd os oes ganddo/ganddi fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn mater y mae'r awdurdod yn ei ystyried.

Derbyniodd yr Ombwdsmon dystiolaeth ddogfennol berthnasol, gan gynnwys copïau o'r cofnodion treth gyngor ar gyfer yr eiddo dan sylw. Gwyliodd hefyd y gwe-ddarllediad o gyfarfod llawn y Cyngor a chafodd Swyddog Monitro'r Cyngor a'r Aelod eu cyfweld.

Ystyriodd yr Ombwdsmon fod y dystiolaeth yn awgrymu bod yr Aelod wedi torri'r Cod gan ei fod yn derbyn na wnaeth ddatgan buddiant ac wedi pleidleisio ar bennu cyfradd y dreth gyngor.

Derbyniodd yr Aelod hefyd ei fod mewn ôl-ddyledion treth gyngor ar ei gyn gartref adeg y cyfarfod hwnnw. Serch hynny, penderfynodd yr Ombwdsmon na fyddai mynd ar drywydd y mater er budd y cyhoedd o ystyried yr amgylchiadau lliniarol sylweddol yn yr achos penodol hwn. Roedd y rhain yn cynnwys yr amgylchiadau personol a arweiniodd at yr Aelod yn ysgwyddo'r ddyled wreiddiol a'r ffaith fod yr aelod yn amhrofiadol. Ymddiheurodd, fe dalodd yr ôl-ddyledion a dywedodd na fyddai'n digwydd eto. Yn wyneb yr amgylchiadau lliniarol, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Datgan a chofrestru buddiannau
Rhif Achos: 201807334 – Adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn fod aelod ("yr Aelod") o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnwyd, yn groes i gyngor y Swyddog Monitro fod gwrthdaro buddiannau yn bodoli, bod yr Aelod wedi derbyn rôl benodol yn y cabinet. Honnwyd hefyd bod yr Aelod wedi methu â datgan buddiant mewn materion o'r fath.

Yn ystod yr ymchwiliad, gofynnwyd am wybodaeth ar gyngor y Swyddog Monitro, a chafodd yr Aelod ei gyfweld. Eglurodd yr Aelod ei fod wedi ystyried cyngor y Swyddog Monitro a'i fod yn hyderus bod strategaeth briodol wedi'i llunio i reoli a lliniaru unrhyw wrthdaro buddiannau posib. Dywedodd yr Aelod ei fod ef ac Arweinydd y Cyngor wedi cynnal ymchwil i weld lle roedd sefyllfaoedd tebyg wedi

codi mewn cynghorau eraill a'r effaith a gafodd ar yr awdurdodau hynny. Cynhyrchodd yr Aelod hefyd dystiolaeth o’r datganiadau buddiannau a wnaeth.

Er bod yr Ombwdsmon yn fodlon bod yr Aelod wedi ystyried cyngor y Swyddog Monitro, roedd y diffyg tryloywder mewn perthynas ag agweddau o’r penodiad (gan gynnwys amseriad ymddiswyddiad yr Aelod o’i waith a fyddai wedi gwrthdaro â'r penodiad) o bryder ac wedi achosi i eraill gwestiynu'n rhesymol y penodiad. Gan fod yr Aelod wedi ymddiswyddo o’i hen swydd yn y pen draw ac wedi dechrau ar ei rôl, daeth yr Ombwdsmon i’r casgliad nad oedd mynd ar drywydd y mater ymhellach er budd y cyhoedd a chanfu nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach. O ystyried y potensial i wrthdaro buddiannau godi, cafodd yr Aelod ei atgoffa o’r angen i ofyn am gyngor y Swyddog Monitro gydag unrhyw faterion yn y dyfodol.

## Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau

Ni does crynodebau yn gysylltiedig â’r canfyddiad hwn.

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

Ni does crynodebau yn gysylltiedig â’r canfyddiad hwn.

**RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU**

| DYDDIAD Y CYFARFOD | EITEMAU / MEYSYDD ADRODDIAD | AWDUR YR ADRODDIAD |
|---|---|---|
| | | |
| **04 Rhagfyr 2020** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh |
| | Eitem Sefydlog: Llyfr Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Gwrandawiad y Pwyllgor Safonau Arbennig – Gwersi a Ddysgwyd | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Cylch Gorchwyl ac Adolygiad o Gapasiti'r Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |

Diweddarwyd - 27/08/2020 SJ

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag